


## Yn y Rhifyn Hwn:

- Castell Gwrych ac I'm A Celebrity
- Llyfr y mis
- Ymweliadau Rhithiol
- Adolygiad Darlennydd
- Crefftau - Pry' Copyn
- Geiriau Diflanedig a Llyfrgell Llanrwst

## Llyfr y Mis



**AR GAEL RŴAN**

## GWRYCH CASTLE AC I'M A CELEBRITY, GET ME OUT OF HERE


Ynghanol arddangosfeydd ffenestri siopau Abergele a'r cyffro ynghylch ffilmio *I'm a Celebrity*, cawn ein hatgoffa o'r cysylltiad rhwng Castell Gwrych a'n casgliadau hanes lleol. Wrth ddathlu 50 mlynedd o'r gwasanaeth llyfrgell yn ein lleoliad presennol ym mis Ionawr

2019, rhoddodd Dr Mark Baker gyflwyniad i lyfrgell dan ei sang gan drafod ei lyfr diweddaraf – **Gwrych Castle, An Official Guide.**

Fe ddysgon ni am hanes Castell Gwrych a'r teulu a'i hadeiladodd.



GWRYCH CASTLE  
*An Official Guide*  
Mark Baker




Os ydych chi'n mwynhau llyfr antur dirgelwch llofruddiaeth, mynnwch gopi o nofel Elizabeth Duncan '**Murder is for Keeps**' sydd wedi'i leoli yng Ngwrych. Mae'r teitl yn rhan o gyfres ddirgelwch Penny Brannigan Mystery sydd wedi'u lleoli mewn lleoliadau yng Nghymru.

**I wneud cais am gopi, ewch i gatalog y llyfrgell a defnyddiwch ein gwasanaeth Ffonio a Chasglu.**

# Ymweliadau Rhithiol gan Staff y Llyfrgell i Wyllo a Rhannu!

Cliciwch ar y fideos i wyllo ein straeon Noson Calan Gaeaf unwaith eto!



## BETH I'W DDARLLEN NESAF? ADOLYGIAD DARLLENYDD!

**Diolch ENFAWR i Diane, darllenydd yn Llyfrgell Abergele, am ei hadolygiad o 'Pull of the Stars' gan Emma Donoghue.**



Mae "Pull of the Stars" wedi'i osod mewn ysbyty sy'n cael hi'n anodd, yn gweithio ormod a heb ddigon o staff yn Nulyn dros gyfnod o dri diwrnod, 31 Hydref i 2 Tachwedd, 1918, yn ystod pandemig a fyddai'n adnabyddus fel "Ffliw Sbaen". Gyda hyn yn gefndir, mae Donoghue yn trafod crefydd, gwleidyddiaeth, rhywioldeb, cariad, bywyd, perthnasau ffrindiau a theulu a dynoliaeth yn gyffredinol, drwy lygaid Julie Powers, nyrs y daeth ei brawd yn ôl o'r ffrynt yn un darn yn gorfforol, ond yn feddylol ofnus a methu siarad. Mae'n ddiddorol iawn darllen gwybodaeth llywodraeth 1918 a'r ffordd y cafodd y pandemig ei drin ar y pryd, gyda nifer o gymariaethau hyd heddiw. Mae'r cymeriadau yn gryf, wedi'u ysgrifennu'n dda ac yn gredadwy hefyd.

Yn y diweddglo, mae Emma yn datgan bod y nofel yn nwylo'r cyhoeddwr cyn bod sôn am bandemig, a'u bod wedi creu argraff arni o ran pa mor gyflym y llwyddon nhw i gyhoeddi'r llyfr.

ymlacio **read**  
**dysgu** explore  
darllen **learn**



## CREFFTAU - PRY' COPYN



### PETHAU I GADW LLYGAD AMDANYNT...

- 'Wythnos ymgyrch 'Awgrym y Darllenydd' ar dudalennau ein cyfryngau cymdeithasol **2/11 - 8/11**.
- Ffuglen mis Tachwedd, dilynwch hyn ar ein cyfryngau cymdeithasol gyda **#FfuglenmisTachwedd**

## GEIRIAU DIFLANEDIG A LLYFRGELL LLANRWST

Wrth edrych eto ar un o fy hoff lyrau, sef '**Geiriau Diflanedig**', cefais fy atgoffa bod Llanrwst yn un o'r llefydd gorau yng Nghymru i werthfawrogi lliwiau'r Hydref. Y coed ar lan yr afon yn newid eu lliwiau'n ddyddiol a'r golau ar wahanol adegau o'r dydd, yn rhoi gwedd newydd iddynt. Ac ar garreg y drws, finnau wrth fy modd gyda'r goeden **Gastanwyddan** sydd tu allan i'r llyfrgell, a hithau'n rhoi o'i chnwd wrth i'r brigau ddisgyn. Wrth fy modd oherwydd i mi ddychmygu bod plant o bob oed, siwr gen i, yn methu peidio chwilio am y gneuen fwyaf i roi sglein arni!

Tu cefn i'r llyfrgell, mae'r **lorwg** yn rhemp, ai blodau'n bwydo'r adar cyn i'r Gaeaf gau amdanom. Môr melyn **Dant y Llew** wedi hen fynd wrth i'r tymor droi. Ond gwell gen i weld blodau'r **mieri**, oherwydd ei ffrwythau du hi sy'n bwdin ac yn fferins i ni.

Efallai na chewch chi deithio i Lanrwst eleni, ond ewch 'am dro' trwy dudalennau'r llyfr hynod hwn.

'**Tic-toc, eiliadau aur, bysedd y cloc**'.  
(*'Tick-tock, sun clock, clover & dock*').

